

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

33/2023

DYDDIAD CYHOEDDI: 30/03/2023



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ardoll Ymwelwyr – Barn Defnyddwyr a Phreswylwyr

ISBN Digidol: 978-1-80535-730-8

© Hawlfraint y Goron

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg /
This document is also available in English

Adroddiad Ymchwil Llawn: Ardoll Ymwelwyr – Barn Defnyddwyr a Phreswylwyr
Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 33/2023.

Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/ymchwil-ardoll-ymwelwyr-barn-defnyddwyr-thrigolion>

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Tîm Ardoll
Ymwelwyr Strategaeth Trethi a Chysylltiadau Rhynglywodraethol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: ardollymwelwyr@llyw.Cymru

Cynnwys (cliciwch ar y teitl i neidio i'r bennod)

Pennod	Rhif tudalen
Cefndir a Methodoleg	4
Demograffeg y sampl	9
Canfyddiadau Allweddol	12
Agweddau at dwristiaeth	14
Agweddau at yr ardoll ymwelwyr	20
Effaith ehangach yr ardoll	32
Sut mae arian yn cael ei wario	38
Syniadau pellach ar gyflwyno'r ardoll ymwelwyr	43
Atodiad: Arwyddocâd ystadegol	45

Cefndir a Methodoleg



Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn gweithio ar ymgynghoriad ar Ardoll Ymwelwyr arfaethedig yng Nghymru.

Un bwlch tystiolaeth y maent wedi'i nodi yw barn preswylwyr o Gymru a defnyddwyr gwyliau domestig y DU ynghylch a ydynt yn meddwl y dylai ymwelwyr gyfrannu drwy Ardoll, yn fodlon talu Ardoll ac a fyddent yn dal i ddod i Gymru pe bai Ardoll yn cael ei chyflwyno.

Er mwyn deall barn y cyhoedd, hoffai Llywodraeth Cymru gynnal ymchwil pwrpasol ar draws dau gam:

1. Rhedodd Cam 1 fel ymchwil ansoddol trwy gyfweiliadau manwl i ddeall yr ystod lawn o farnau posibl ar y mater
2. Rhedodd Cam 2 fel arolwg meintiol i fesur barn ymhlith sampl ystadegol gadarn

Mae'r ymchwil hwn yn rhan o raglen ehangach o weithgarwch ymchwil. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal ymchwil pellach unwaith y bydd y gwaith o ddatblygu polisi wedi mynd rhagddo ymhellach.

Methodoleg – Cam ansoddol

Cafodd 16 x o gyfranogwyr eu recriwtio gan recriwtwyr lleol ar sail eu hymlyniad i'r meini prawf isod. Cynhaliwyd cyfweiliadau manwl dros Zoom neu dros y ffôn ar sail un-i-un.

Roedd pob cyfranogwr yn ddefnyddwyr gwyliau domestig y DU, a gwnaethom eu cymhwyso fel a ganlyn:

- Rhaid bod yn benderfynwr gwyliau neu wyliau byr
- Rhaid bod wedi cymryd gwyliau byr neu wyliau yn y DU yn ystod y 5 mlynedd diwethaf
- Rhaid bod yn ystyried cymryd gwyliau neu wyliau byr yn y DU o ddifrif yn ystod y 12 mis nesaf.

Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng 11 Tachwedd a 18 Tachwedd 2022.

Ar gyfartaledd cymerodd cyfweiliadau dyfnder 30 munud i'w cwblhau.

Derbyniodd pob cyfranogwr gymhelliant ariannol i gymryd rhan.

	Diffiniad sampl	Nifer y cyfweiliadau (lleiafswm)
Cyffredinol	Defnyddwyr gwyliau domestig (bwriadwyr)	16 (Yr holl ymatebwyr)
	Bwriadwyr i Gymru	8-10
Math o gyrchfan	Bwriadwyr cefn gwlad neu arfordir gwledig	3-4
	Bwriadwyr tref glan môr traddodiadol	3-4
	Bwriadwyr mynyddoedd neu fryniau	3-4
	Bwriadwyr dinas neu dref fawr	3-4
Cyfnod bywyd	Cyn-nythwyr	3-4
	Teuluoedd	4-6
	Annibynwyr hŷn	3-4
	Ymdeolwyr	4-6
Gradd gymdeithasol	Gradd gymdeithasol AB	3-4
	Gradd gymdeithasol C1	3-4
	Gradd gymdeithasol C2	3-4
	Gradd gymdeithasol DE	3-4
Rhan-barth	Preswylwyr o Gymru	6-8
	Preswylwyr nad ydynt o Gymru	8-10

Methodoleg – Cam meintiol

Roedd cam craidd yr ymchwil yn feintiol, a gynhaliwyd trwy BVA BDRC trwy eu harolwg ar-lein ClearSight - arolwg cenedlaethol cynrychioliadol misol sy'n canolbwyntio ar agweddau cyhoedd y DU at deithio a hamdden. Mae arolwg ClearSight yn cael ei noddi ar y cyd gan VisitEngland, Croeso Cymru a VisitScotland, ac mae'n cynnwys nifer o gwestiynau ar fwriadau twristiaeth ddomestig yn y flwyddyn i ddod.

- Cynhaliwyd yr astudiaeth rhwng 3 Ionawr a 18 Ionawr
- Cwblhaodd 2,558 o ymatebwyr yr arolwg hwn, ac mae 1,005 ohonynt yn byw yng Nghymru
- Mae'r data wedi'i bwysoli yn ôl oedran, rhyw, gradd gymdeithasol a rhanbarth felly mae'n gynrychioliadol yn genedlaethol o boblogaeth y DU

Dehongli'r adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys nifer o is-grwpiau gwahanol fel y'u diffinnir isod:

1. **Llawer o dwristiaeth yn yr ardal:** Ymatebwyr sy'n hunan-ddisgrifio fel rhai sydd â 'llawer o dwristiaeth' yn eu hardal leol – 29% o'r sampl wedi'i bwysoli gyda sylfaen o 743.
2. **Llawer o dwristiaeth yn yr ardal ac yn byw yng Nghymru:** Ymatebwyr sy'n hunan-ddisgrifio fel rhai sydd â 'llawer o dwristiaeth' yn eu hardal leol ac yn byw yng Nghymru – 1% o'r sampl wedi'i bwysoli gyda sylfaen o 311
3. **Tebygol iawn o fynd i Gymru ar wyliau:** Ymatebwyr sy'n debygol iawn o fynd ar wyliau yng Nghymru yn yr ychydig flynyddoedd nesaf – 15% o'r sampl wedi'i bwysoli gyda sylfaen o 618.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn defnyddio 'segmentau ariannol' sy'n ymwneud ag agweddau presennol at yr argyfwng costau byw. Er y bydd yr Ardoll Ymwelwyr yn cael ei gweithredu y tu hwnt i'r argyfwng costau byw, mae'r is-grwpiau hyn yn darparu arweiniad da o ran modd ariannol ac am y rheswm hwn maent yn well nag incwm aelwydydd. Disgrifir y segmentau fel a ganlyn:

1. **Rwy'n un o'r rhai lwcus** - mewn gwirionedd rwy'n well fy mynd na chyn yr argyfwng
2. **Rwy'n iawn** – nid yw'r argyfwng costau byw wedi effeithio arnaf mewn gwirionedd ac rwy'n eithaf hyderus na fydd yn gwneud hynny.
3. **Rwy'n ofalus** - hyd yn hyn mae pethau'n iawn ond rwy'n teimlo bod yn rhaid i mi fod yn ofalus iawn.
4. **Rydw i wedi cael fy nharo'n galed** – does gen i ddim dewis ond torri'n ôl ar fy ngwariant neu er fy mod wedi cael fy nharo'n galed ac efallai y dylwn dorri'n ôl, byddai'n well gen i barhau i wario heddiw a gadael i yfory ofalu amdano'i hun.


Demograffeg y sampl




Rhyw a chyfnod bywyd

- Mae rhaniad rhyw yr ymatebwyr yn gymharol gyfartal ar draws pob un o'r is-grwpiau a nodir yn yr adroddiad hwn. Mae'r proffil oedran hefyd yn adlewyrchu poblogaeth y DU yn fras, er bod y rhai sydd â llawer o dwristiaeth yn eu hardal (yng Nghymru a thu allan) yn tueddu i fod yn hŷn na'r cyfartaledd.

Ffigur 1. Rhyw yr ymatebwyr (wedi'i bwysoli), Canran, Yr holl ymatebwyr



Ffigur 2. Oed yr ymatebwyr, Canran, Yr holl ymatebwyr




C4: Ydych chi'n...? (Rhyw) C2: Ym mha un o'r grwpiau oedran canlynol ydych chi? (Oedran)
 Sylfaen: Holl breswylwyr y DU n=2,558; preswylwyr o Gymru n=1,005; Llawer o dwristiaeth yn yr ardal n=743; Llawer o dwristiaeth yn yr ardal ac yn byw yng Nghymru n=311


Incwm y cartref a gradd gymdeithasol

- Mae tua hanner holl breswylwyr y DU yn perthyn i raddau cymdeithasol uchel ABC1, sy'n gymharol gyson ar draws pob is-grŵp a gafodd sylw yn yr ymchwil. Wrth edrych ar y segment ariannol (gweler tudalen 8 am esboniad), mae tua 1 o bob 5 o boblogaeth y DU wedi cael eu 'taro'n galed' gan yr argyfwng costau byw, dros hanner yn 'bod yn ofalus iawn', gyda'r gweddill naill ai heb eu heffeithio neu well eu byd.

Ffigur 3. Gradd gymdeithasol yr ymatebwyr (wedi'i bwysoli), Canran, Yr holl ymatebwyr



Ffigur 4. Effaith costau byw ar ymatebwyr, Canran, Yr holl ymatebwyr



C15: Pa un o'r rhain sydd fwyaf amlwg yn berthnasol i'ch galwedigaeth? C17: Bu llawer o sôn am sut mae'r 'argyfwng costau byw' wedi effeithio ar amgylchiadau ariannol pobl. Pe bai'n rhaid i chi ddewis, pa UN o'r datganiadau canlynol fyddai'n disgrifio orau eich teimladau am eich sefyllfa eich hun, ar hyn o bryd?

Sylfaen: Holl breswylwyr y DU n=2,558; Preswylwyr o Gymru n=1,005; Llawer o dwristiaeth yn yr ardal n=743; Llawer o dwristiaeth yn yr ardal ac yn byw yng Nghymru n=311

Canfyddiadau Allweddol



Canfyddiadau allweddol

1. Mae mwyafrif (58%) o'r cyhoedd yn y DU yn cytuno y dylai twristiaid gyfrannu at gostau cynnal a buddsoddi yn y cyrchfannau y maent yn aros ynddynt, gan godi ymhlith pobl sydd â llawer o dwristiaeth yn eu hardal – yng Nghymru (66%) a'r DU (72%). Ychydig iawn (13%) sy'n anghytuno â hyn.
2. Pan gyflwynwyd y cysyniad o 'ardoll ymwelwyr' mewn man lle maent yn mynd ar wyliau neu yn eu hardal, roedd y cyhoedd yn y DU yn fwy cadarnhaol na negyddol – roedd 45% yn gadarnhaol, a 25% yn negyddol. Eto cynyddodd positifrwydd ymysg pobl gyda llawer o dwristiaeth yn eu hardal.
3. Er bod yr ymatebion yn fwy cadarnhaol na negyddol, mae'n bwysig nodi pan gafodd yr ardoll ymwelwyr ei throï o fod yn ymrwymiad haniaethol (h.y. i dwristiaid gyfrannu at ardaloedd twristiaeth) i gysyniad diriaethol (ardoll ymwelwyr gwirioneddol mewn ardaloedd y maent yn ymweld â nhw neu'n byw ynddynt) , mae negyddoldeb yn cynyddu, ac i rai ymatebwyr, roedd negyddoldeb yn amlwg. Ymhellach, ar gyfer y rhai ag incwm aelwydydd is, mae positifrwydd yn gostwng yn sylweddol, sy'n awgrymu bod dulliau ariannol yn ysgogi ymateb cadarnhaol.
4. Nid oedd pob gwrthwynebiad yn ymwneud â modd ariannol personol. Roedd yr ymchwil ansoddol yn dangos bod rhai yn gwrthwynebu ar egwyddor – crybwyllwyd yr holl rai canlynol, 'talu i deithio yn eu gwlad eu hunain', 'diffyg dealltwriaeth o'r manylion', 'enw da rhanbarthol', 'niwed i enw da cenedlaethol' a 'phryder am fusnes lleol' (yn enwedig y rhai y mae pobl leol hefyd yn eu defnyddio). Yn gadarnhaol, fodd bynnag, dangosodd yr ymchwil ansoddol fod esbonio'r rhesymeg y tu ôl i'r ardoll ac ychwanegu eglurder i sut y byddai'n edrych, wedi helpu i leddfu rhywfaint o negyddoldeb.
5. Teimlai bron pob is-grŵp ei bod yn bwysig iawn eu bod yn cael gwybod ble y byddai'r arian yn cael ei wario, yn enwedig preswylwyr o Gymru sydd â llawer o dwristiaeth yn eu hardal. 'Diogelu'r amgylchedd lleol' a 'chynnal gwasanaethau a seilwaith lleol' oedd y prif ffyrdd yr oedd pobl ar eu gwyliau a phobl leol yn teimlo y dylid gwario arian, er bod trefn y flaenoriaeth wedi newid rhwng y ddau.
6. Cyflwynwyd amrywiaeth o syniadau i sicrhau bod yr ardoll yn llwyddiant – gan gynnwys treialu mewn cyrchfannau prysur, bod yn atebol am arian a godwyd, ail-labelu fel treth amgylcheddol, lansio gyda chyrchfannau eraill ac aros nes bod yr argyfwng costau byw wedi codi cyn lansio.

Agweddau at dwrystiaeth



Agweddau ymatebwyr y DU at deithio a gwyliau yn y DU

Cynhyrchodd yr ymchwil ansoddol nifer o themâu eang yn ymwneud ag agweddau at deithio domestig:

- Mae'r cyhoedd yn y DU yn cynnwys pris y gwyliau cyfan yn eu cyllideb wrth gynllunio – gallai hyn gynnwys costau ychwanegol megis ardoll.
- Mae llawer yn dewis y DU oherwydd ei fod yn opsiwn rhatach, gyda thripiâu tramor yn cael eu hystyried yn foethusrwydd. Wrth wynebu costau tripiâu domestig cynyddol, mae tripiâu tramor yn dod yn fwy deniadol.
- Nododd rhai nad yw teithio o fewn y DU 'yn teimlo fel bod yn dwristiaid' oherwydd eu bod yn eu gwlad eu hunain. Felly byddai 'trethi twristiaeth' ychwanegol (fel y disgrifiwyd gan rai ymatebwyr) ychydig yn anghyson.

“Rwy’n ceisio mynd i ffwrdd yn ystod gwyliau’r haf ond ar ôl COVID-19 mae prisiau lleoedd yn y DU wedi codi’n aruthrol. Edrychais ar y DU am 4 noson, ond roedd yn costio £1500 i aros yn Nyfnaint – mae hynny’n llawer gormod. Yn lle hynny fe aethon ni i Sbaen am £80 yno ac yn ôl i 4 o bobl.” (Preswlydd o Gymru)


“I mi, pan dwi ’n archebu gwyliau, dwi’n edrych ar y lleoliad, y cyfleusterau, a’r pris. Mae pob un yr un mor bwysig.” (preswlydd y DU nad yw'n byw yng Nghymru)

“Mae’n beth rhyfedd a dweud y gwir oherwydd er fy mod yn gwybod fy mod yn dwristiaid pan fyddaf yn mynd i ddinas arall yn y DU, nid wyf yn ystyried fy hun fel twristiaid mewn gwirionedd, dywedwch os es i Ddyfnaint, [...] rwy’n ei weld fel fy ngwlad, felly rwy’n teimlo nad wyf yn dwristiaid.” (Preswlydd o Gymru)

Cyrchfannau trip dros nos yn y DU

- De-orllewin Lloegr yw'r cyrchfan mwyaf poblogaidd sy'n cael ei ystyried ar gyfer trip dros nos yn y DU yn yr ychydig flynyddoedd nesaf – ychydig o dan 1 o bob 5 (18%) o ystyried y rhanbarth hwn.
- Mae Cymru bron ar y brig i gael ei hystyried, gyda 15% yn ei hystyried o ddifrif am ymweliad dros nos yn y blynyddoedd nesaf.


Ffigur 5. Cyrchfannau ymatebwyr sy'n cael eu hystyried o ddifrif am wyliau/gwyliau byr yn yr ychydig flynyddoedd nesaf, Canran, Yr holl ymatebwyr




Faint o dwristiaeth sydd i'w gael mewn ardaloedd lleol ar draws rhanbarthau'r DU

- Dim ond tua 3 o bob 10 (29%) o'r cyhoedd yn y DU sy'n credu eu bod yn cael 'llawer' o dwristiaeth yn eu hardal leol, er bod hyn yn codi i 3 o bob 5 (58%) ymhlith preswylwyr o Dde-orllewin Lloegr. Mae 3 o bob 10 o breswylwyr o Gymru yn credu eu bod yn cael llawer o dwristiaeth yn eu hardal - yn gyson â'r Alban.

Ffigur 6. Faint o dwristiaeth a geir yn yr ardal leol, Canran, Holl breswylwyr y DU



Ffigur 7. Faint o dwristiaeth a geir yn yr ardal leol, y rhai sy'n dewis 'llawer', Canran, Yr holl ymatebwyr




TS1b: Faint o dwristiaeth ydych chi'n ei gael yn eich ardal leol? C3: Ym mha ranbarth ydych chi'n byw?

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n= 2,558, Gogledd-ddwyrain Lloegr (n=71) Gogledd-orllewin Lloegr (n=173) Swydd Efrog a Humber (n=144) Gorllewin Canolbarth Lloegr (n=157) Dwyrain Canolbarth Lloegr (n=113) Dwyrain Lloegr (n=125) De-ddwyrain Lloegr (n=195) De-orllewin Lloegr (n=124) Llundain (n=178) Yr Alban (n=125) Cymru (n=1005) Gogledd Iwerddon (n=23*) *sylfaen isel

Rhanbarth preswlyio

- De-orllewin Lloegr, De-ddwyrain Lloegr, Llundain a Gogledd Orllewin Lloegr yw'r rhannau o'r DU sy'n cynhyrchu'r gyfran uchaf o breswylwyr sy'n credu bod ganddyn nhw 'lawer o dwristiaeth yn eu hardal'.

Ffigur 8. Rhanbarth tarddiad yr ymatebwyr (wedi'i bwysoli), Canran, Ymhlith yr holl ymatebwyr sy'n debygol iawn o fynd i Gymru ar wyliau



Agweddau at dwristiaeth yn eu hardaloedd lleol

Wrth ystyried twristiaeth yn eu hardaloedd lleol eu hunain, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn gweld y manteision yn drech na'r negyddol.

- Nododd llawer faint yr oedd busnesau lleol yn dibynnu ar dwristiaeth
- I rai, daeth elfen o falchder gyda byw mewn ardal boblogaidd trwy weld eu hamwynderau lleol yn cael eu defnyddio
- Teimlai pobl leol eu bod yn cael eu trin â pharch gan ymwelwyr yn gyffredinol
- Nododd rhai broblemau traffig, ond amlygwyd ffyrdd y maent wedi'u canfod o osgoi'r 'awr wyllt'.

I'r rhai sy'n teithio i ardaloedd lle'r oedd gorlenwi yn bryder, fe wnaethant deithio'n fwriadol y tu allan i ddyddiadau amseroedd brig y tymor. Yn y cyfamser, amlygodd y rhai a oedd yn teithio ar adegau prysur yr ymdrech a wnaethpwyd i fod yn ystyriol o bobl leol fel ffordd o leihau effaith.

“Mae'n cadw'r busnesau lleol i fynd – dwi'n dychmygu bod fy nghaffis lleol yn gwneud llawer ar draul twristiaeth. Hynny yw, rydyn ni'n byw ger yr afon felly rydyn ni'n cael llawer o dwristiaid yn canwio, yn cerdded [...] weithiau mae llawer o ganwau a byrddau padlo ar yr afon felly rydych chi'n cael sbwriel, ond ar y llaw arall mae'n braf ei fod yn cael ei ddefnyddio” (Preswlydd o Gymru)

“Lle dw i'n byw rydyn ni'n cael llawer o ymwelwyr yn yr haf ond pan maen nhw'n sylweddoli fy mod i'n lleol, byddan nhw'n aml yn gofyn cwestiynau ac yn gyfeillgar iawn” (Preswlydd o Gymru)

“Fel twristiaid, nid yw lleoedd gorlawn yn fy mhoeni. Ble bynnag yr awn yn y byd, rydym yn parchu'r hyn y mae'r bobl leol yn ei wneud” (preswlydd y DU nad yw'n byw yng Nghymru)


Agweddau at yr ardoll ymwelwyr



Agweddau tuag at gynnal a buddsoddi mewn cyrchfannau

- Mae dros hanner preswylwyr y DU a Chymru yn cytuno y dylai twristiaid gyfrannu at gostau cynnal a buddsoddi yn y cyrchfannau y maent yn aros ynddynt – dim ond cyfran fach (13%) sy'n anghytuno.
- Mae hyn yn cynyddu i ychydig llai na thri chwarter (72%) ymhlith pobl sy'n byw mewn ardaloedd â llawer o dwristiaeth, a dwy ran o dair (66%) ar gyfer pobl sy'n byw mewn ardaloedd o Gymru sydd â llawer o dwristiaeth.

Ffigur 9. Lefel y cytundeb â'r ardoll yn y gyrchfan, Canran, Yr holl ymatebwyr




'TS2: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai twristiaid gyfrannu at gostau cynnal a buddsoddi yn y cyrchfannau y maent yn aros ynddynt? Sylfaen: Holl breswylwyr y DU (n=2,558) Preswylwyr o Gymru (n=1,005) 'Llawer o dwristiaeth yn yr ardal (n= 743) 'Llawer o dwristiaeth yn yr ardal ac yn byw yng Nghymru (n=311) 'Tebygol iawn o fynd i Gymru ar wyliau (n=618)


Agweddau tuag at gynnal a buddsoddi mewn cyrchfannau

- Mae cytundeb y dylai twristiaid gyfrannu at gynnal a buddsoddi mewn cyrchfannau yn cydberthyn yn gryf â gradd gymdeithasol a 'modd ariannol' – graddau cymdeithasol uwch a phobl sy'n cael eu heffeithio'n llai gan yr argyfwng costau byw yn fwy tebygol o gytuno na graddau cymdeithasol is a phobl yr effeithir arnynt yn fwy gan yr argyfwng cost-byw. Wedi dweud hynny, dim ond lleiafrif o'r holl is-grwpiau sy'n anghytuno â'r teimlad hwn.

Ffigur 10. Lefel y cytundeb â'r ardoll ar gyrchfan yn ôl gradd gymdeithasol, Canran, Yr holl ymatebwyr



Ffigur 11. Lefel y cytundeb â'r ardoll ar gyrchfan yn ôl segment ariannol, Canran, Yr holl ymatebwyr



'TS2: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai twristiaid gyfrannu at gostau cynnal a buddsoddi yn y cyrchfannau y maent yn aros ynddynt? Sylfaen: Pawb sy'n darparu gradd gymdeithasol ac sy'n debygol iawn o gymryd gwyliau (n=2,068) A+B (n=563) C1 (n= 307) C2 (n=394) D+E (n=804) Gwell eu byd na chyn yr argyfwng (n=129); Heb fy effeithio ac yn hyderus na fyddaf (n=380); Rwy'n bod yn ofalus iawn (n=1,040); Rydw i wedi cael fy nharo'n galed (n=519)

Cyflwyno'r cysyniad o ardoll ymwelwyr

Yn dilyn eu hymateb i'r cysyniad o gyfrannu at dwristiaeth, rhoddwyd y disgrifiad isod o'r cysyniad ardoll ymwelwyr i'r ymatebwyr:

Mae cyrchfannau gwyliau yng Nghymru yn ystyried codi 'ardoll ymwelwyr' ar dwristiaid o'r DU a thramor sy'n aros dros nos mewn llety y telir amdano. Byddai'r tâl bychan hwn yn cael ei ddefnyddio i gefnogi twristiaeth gynaliadwy drwy helpu i ariannu gwasanaethau a seilwaith lleol, a ddefnyddir gan ymwelwyr a phreswylwyr.*


Nid yw'r ffi wirioneddol wedi'i phenderfynu eto, ond byddai'n debyg i'r taliadau presennol mewn cyrchfannau Ewropeaidd, sy'n cynrychioli canran fach o wariant cyffredinol ymwelydd ar lety. Byddai'n cael ei osod ar lefel sy'n berthnasol i gost y llety.

**Cafodd Cymru ei darparu fel opsiwn i'r holl ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn debygol 'iawn/eithaf tebygol' o gymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru yn yr ychydig flynyddoedd nesaf (36% o'r sampl). I bawb na ddywedodd eu bod yn debygol iawn/eithaf tebygol o gymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru yn yr ychydig flynyddoedd nesaf, mewnosodwyd cyrchfan arall y maent yn debygol o ymweld ag ef ar hap. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod ymatebion ymatebwyr i'r ardoll yn cael eu hangori ar gyrchfan sy'n

Agweddau at ardoll ymwelwyr

- Pan roddwyd disgrifiad o'r cysyniad ardoll ymwelwyr o fewn y cyd-destun twristiaeth ddomestig, roedd pob is-grŵp yn fwy cadarnhaol na negyddol am y fenter. Roedd 45% o breswylwyr y DU yn gadarnhaol (48% o breswylwyr o Gymru), gyda 25% yn negyddol. Roedd 3 arall o bob 10 (31%) naill ai 'ddim yn gadarnhaol nac yn negyddol' neu nid oedd ganddynt farn.
- Mae positifrwydd yn cynyddu i bobl sydd â llawer o dwristiaeth yn eu hardal – yn y DU ac yng Nghymru – ac i bobl sy'n debygol iawn o fynd i Gymru ar wyliau.

Ffigur 12. Golwg ar ardoll mewn cyrchfan twristiaeth, Canran, Yr holl ymatebwyr




'TS3: O'r disgrifiad uchod, a ydych chi'n gweld cyflwyno ardoll ymwelwyr yn ...fel menter gadarnhaol neu negyddol? Sylfaen: Holl breswylwyr y DU (n=2,558) Preswylwyr Cymru (n=1,005) 'Llawer o dwristiaeth yn yr ardal (n= 743) 'Llawer o dwristiaeth yn yr ardal ac yn byw yng Nghymru (n=311) 'Tebygol iawn o fynd i Gymru ar wyliau (n=618)


Golwg ar ardoll ymwelwyr yn ôl gradd gymdeithasol

- Roedd pob gradd gymdeithasol a segment ariannol yn fwy cadarnhaol na negyddol am y cysyniad 'ardoll ymwelwyr'. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod positifrwydd yn lleihau'n fras ymhlith graddau cymdeithasol is a dulliau ariannol is. Yn nodedig, mae'r rhai sydd wedi cael eu 'taro'n galed' gan yr argyfwng costau byw (tua 1 o bob 5 o'r boblogaeth) bron mor debygol o weld yr ardoll ymwelwyr â menter negyddol.

Ffigur 13. Golwg ar ardoll mewn cyrchfan twristiaeth yn ôl gradd gymdeithasol, Canran, Ymhlith yr holl ymatebwyr sy'n debygol iawn o gymryd unrhyw wyliau



Ffigur 14. Golwg ar ardoll cyrchfannau twristiaeth yn ôl segment ariannol, Canran, Ymhlith yr holl ymatebwyr sy'n debygol o gymryd unrhyw wyliau




'TS3: O'r disgrifiad uchod, a ydych chi'n gweld cyflwyno ardoll ymwelwyr yn ...fel menter gadarnhaol neu negyddol? C15: Pa un o'r rhain sydd fwyaf amlwg yn berthnasol i'ch galwedigaeth?

Sylfaen: Pawb sy'n darparu gradd gymdeithasol ac sy'n debygol iawn o gymryd gwyliau (n=2,068) A+B (n=563) C1 (n= 307) C2 (n=394) D+E (n=804) Gwell eu byd na chyn yr argyfwng (n=129); Heb fy effeithio ac yn hyderus na fyddaf (n=380); Rwy'n bod yn ofalus iawn (n=1,040); Rydw i wedi cael fy nharo'n galed (n=519)

Agweddau at ardoll ymwelwyr os caiff ei chyflwyno yn eu hardal leol

- Pan ofynnwyd iddynt sut y byddent yn teimlo am yr ardoll ymwelwyr pe bai'n cael ei chyflwyno yn eu hardal leol, roedd y cyhoedd yn y DU yn parhau i fod yn fwy cadarnhaol na negyddol. Yn fwyaf nodedig, roedd y rhai â llawer o dwristiaeth yn eu hardal ar y cyfan yr un mor gefnogol i'r cysyniad ag yr oeddent pan oedd yn gysyniad mwy cyffredinol yn ymwneud â lleoedd y byddent yn mynd ar wyliau.


Ffigur 15. Safbwynt yr ardoll yn eich ardal leol eich hun, Canran, Yr holl ymatebwyr



TS5: Ac a fydddech chi'n gweld yr ardoll ymwelwyr fel menter gadarnhaol neu negyddol pe bai'n cael ei chyflwyno yn eich ardal leol? Sylfaen: Holl breswylwyr y DU (n=2,558) Preswylwyr o Gymru (n=1,005) 'Llawer o dwristiaeth yn yr ardal (n= 743) 'Llawer o dwristiaeth yn yr ardal ac yn byw yng Nghymru (n=311) 'Tebygol iawn o fynd i Gymru ar eu gwyliau (n=618)

Y 'daith ymateb' i'r ardoll ymwelwyr

Roedd yr ymateb i'r ardoll ymwelwyr wedi'i rannu rhwng y rhai a oedd yn derbyn a'r rhai sydd angen rhywfaint o argyhoeddiad. **I'r rhai sy'n fwy agored**, maent yn gyffredinol yn chwilfrydig ynghylch sut y bydd yn gweithio, ac er bod ganddynt rai pryderon, byddant fel arfer wedi dod ar draws yr ardoll mewn gwledydd eraill ac felly maent yn llai amharod i'w orfodi yn y DU cyn belled â'i fod o lefel resymol ac â budd amlwg. **I'r rhai mwy amheus**, mae'r ymateb i weld yr ardoll fel 'treth arall eto' bron yn awtomatig, ac mae wedyn yn fater o leddfu eu pryderon a rhoi sicrwydd iddynt sut y bydd o fudd yn hytrach nag yn rhwystr i ardaloedd a busnesau lleol. Maent hefyd yn llai tebygol o fod wedi dod ar ei draws yn flaenorol, felly byddai angen arwydd clir o sut y bydd yn cael ei orfodi a faint fyddai hynny, er mwyn deall lefel yr effaith ar eu cynlluniau teithio yn y DU eu hunain. Fodd bynnag, os na roddir digon o sicrwydd iddynt, yna mae'r ardoll yn dal i gael ei wrthwynebu.



“Nid yw'r syniad o ardoll yng Nghymru yn ei ddychryn ond byddai'n meddwl y byddai unrhyw beth mwy na £15-20 y noson yn llawer gormod. Mae'n meddwl y byddai 10% o'r gwariant cyffredinol ar lety yn fwy na digon. Unrhyw swm sy'n fwy na hynny, ac efallai y byddwn yn wylidwrus” (un o breswylwyr Cymru)

“Byddwn yn dal i ymweld ond efallai na fyddwn yn aros mor hir neu'n ceisio osgoi'r ardaloedd hynny a mynd i rywle arall. Gallaf weld y byddai twristiaid sy'n talu am gynhaliaeth yn dda i'r gymuned leol” (un o breswylwyr y DU nad ydynt yn byw yng Nghymru)

“Fyddwn i ddim yn ei ddisgwyl yn y wlad hon - rydyn ni'n cael ein trethu ar bopeth. Ni allwch ennill eich arian, ni allwch wario'ch arian. Ni allwch wneud unrhyw beth – mae'r syniad o fynd ar wyliau a thalu treth arall yn ymddangos braidd yn llym” (preswylwydd y DU nad yw'n byw yng Nghymru)

“Yn gallu ei ddeall o safbwynt cadw torfeydd i lawr ond dydw i ddim yn rhy hapus gyda hynny i ddweud y gwir” (preswylwydd y DU nad yw'n byw yng Nghymru)



Pryderon ynglŷn â'r ardoll - twristiaid

Roedd gan y rhai sy'n debygol iawn o deithio yn y DU rai pryderon allweddol o ran yr ardoll:

Amseru

Ystyriwyd bod cyflwyno treth ychwanegol yn ystod argyfwng costau byw yn ansensitif (codwyd hyn er gwaethaf sicrwydd ei fod yn fenter tymor canolig i dymor hwy).

'Trethu'r' tlotaf

Gan fod arosiadau yn y DU yn aml yn cael eu gweld yn opsiwn i'r rhai na allant fforddio mynd dramor, roedd pryder y bydd yr ardoll ymwelwyr hon yn cael effaith negyddol anghymesur ar y rhai lleiaf cefnog. Roedd yn nodedig, er gwaethaf ein sefyllfa, bod cyfranogwyr yn cyfeirio'n awtomatig at yr ardoll fel 'treth'.

Defnydd o arian

Mae yna ddrwgdybiaeth gyffredinol yn y llywodraeth ac felly pryder na fyddai'r arian yn cael ei wario ar yr hyn mae nhw'n bwriadu ar ei gyfer.

Ystyriwyd yr ardoll yn gyffredinol fel cost ychwanegol i'r gwyliau, ac felly byddai lefel y gost yn effeithio ar ba mor fforddiadwy fyddai ardal benodol i ymweld â hi o gymharu â rhanbarth arall.

"Mae'n dibynnu faint ydoedd, dywedwch os oedd yn swm bychan iawn ac roeddwn i wir eisiau mynd i Gernyw, yna byddwn i'n mynd, ond os mai dyna'r gwahaniaeth rhwng cael llety braf yn rhywle arall, yna byddwn i'n meddwl ddwywaith" (preswlydd o Gymru)

"Rwy'n meddwl y byddai llawer iawn o bobl yn poeni fwyaf am dalu treth twristiaeth yn enwedig ar yr amser ariannol anodd iawn hwn... bydd rhaid ystyried yr amseriad yn ofalus cyn ei gyflwyno. Gallaf ddychmygu llawer o bobl yn dweud, "allwn ni ddim fforddio gwresogi ein tai, prynu bwyd a nawr allwn ni ddim hyd yn oed fforddio mynd i ffwrdd ar wyliau!" (Preswlydd o Gymru)

"Os ydyn nhw'n bod yn annheg ac yn anghyfiawn, Na, dwi ddim yn barod i dalu hynny. Os oes swm rhesymol yna efallai. Rydyn ni'n mynd i Gymru oherwydd mae'n werth da am arian. Os ydyn nhw'n ei wario ar bobl sy'n llai ffodus na ni – defnyddiau elusennol gerllaw yna fe allai gael ei gyfiawnhau." (preswylwydd y DU nad yw'n byw yng Nghymru)



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Pryderon ynghylch effaith yr ardoll ar eu hardal leol eu hunain

Roedd gan breswylwyr lleol, yn enwedig y rhai a oedd yn byw mewn ardaloedd gyda thwristiaeth uwch, rai o'r lefelau pryder cryfaf.

Poeni am fusnesau lleol

Ar ôl gweld cymaint yr oedd busnesau lleol yn brwydro heb dwristiaid yn ystod y cyfnod COVID-19, roedd pryder gwirioneddol y gallai eu hoff leoedd (y maent hefyd yn eu mwynhau fel preswylwyr lleol) sy'n dibynnu'n gryf ar dwristiaeth orfod cau pe bai'r ardoll ymwelwyr yn rhwystro ymwelwyr. Gyda'r pryder y byddai'n effeithio ar nifer yr ymwelwyr, roedd pobl leol yn poeni y byddai'r swm a gollwyd o lai o dwristiaid yn ymweld â Chymru yn fwy na'r swm a enillwyd.

Enw da rhanbarthol

I'r rhai sy'n byw yng Nghymru, roedd pryder y byddai bod y rhanbarth cyntaf yn y DU i gyflwyno'r ardoll ymwelwyr yn niweidio enw da Cymru ar draws y DU. Nododd pobl leol faint o waith a wnaed yn ddiweddar i wneud Cymru yn gyrchfan groesawgar, a gwelsant yr ardoll ymwelwyr fel cam yn ôl yn hynny o beth.

Talu i deithio yn eich gwlad eich hun

Yn enwedig i'r rhai sydd eisoes yn byw yng Nghymru ac yn dewis teithio o fewn Cymru i arbed arian, roedd pryder y byddai'n rhaid iddynt dalu'r dreth ychwanegol er eu bod eisoes yn talu treth Gymreig. Roedd y teimlad hwn hefyd yn bodoli ar lefel ehangach y DU.

“Byddwn i eisiau gwybod sut y byddai'n effeithio arna i ac a fyddai'n gwella pethau dwi'n meddwl, a sut y bydd yn effeithio ar fusnesau, a fyddai'n troi pobl i ffwrdd [...] yr effaith leol ar fusnesau, fy hoff gaffi fyddai'n gorfod cau oherwydd bod llai o bobl yn dod oherwydd bod yn rhaid iddynt dalu treth?” (preswlydd o Gymru)

“Pe bai gen i fusnes yno byddwn yn poeni y byddai pobl yn ceisio osgoi'r lleoliad” (preswlydd o'r DU nad yw'n byw yng Nghymru)

“Bydd yn atal pobol rhag dod i Gymru. Rydyn ni eisiau ymwelwyr ac mae angen yr economi ar Gymru.” (Preswlydd o Gymru)

“Siaradwch gyda busnesau lleol y byddai'n effeithio,[...] siaradwch â'r busnesau, a dwi'n meddwl petai prisiau gwyliau'n codi, byddan nhw'n cynyddu beth bynnag o ran tanwydd, llety, bythynnod a phethau'n cynyddu mewn pris hefyd. A ydych chi wir eisiau troi pobl i ffwrdd; un o'r pethau da am COVID-19 gobeithio yw bod pobl wedi cymryd mwy o wyliau yn y DU ac yng Nghymru, a ydych chi eisiau difetha'r momentwm hwnnw? Mae pobl wedi darganfod mwy am Gymru oherwydd bod yn rhaid iddynt gael mwy o wyliau yn y DU ac rwy'n meddwl ei bod yn drueni os ydynt yn cynyddu'r costau i'w gwneud yn anghyraeddadwy i bobl ac yn colli'r holl fomentwm yr oeddech wedi gweithio mor galed i'w adeiladu i Gymru.” (Preswlydd o Gymru)

“Mae'n ymddangos yn llym i fod yn codi tâl ar ddinasyddion y DU – mae'n creu hyd yn oed mwy o rwyg pan rydyn ni i fod i fod yn unedig. Os yw Cymru'n gwneud hynny, dylai Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon wneud hynny hefyd! Pam na allant godi tâl ar dwristiaid o dramor?” (preswlydd y DU nad yw'n byw yng Nghymru)

Pwysigrwydd eglurder

Er bod rhai o'r bobl y siaradwyd â nhw wedi cael profiad o'r ardoll ymwelwyr mewn gwledydd eraill yn fwriadol, roedd llawer heb fod yn siŵr beth oedd hyn a sut roedd yn gweithio, ac roeddent yn ansicr ynghylch hynny.

Fel y cyfryw, mae angen clir am eglurder ynghylch:

- Beth yw'r ardoll ymwelwyr mewn gwirionedd
- Pam fod ei angen
- I bwy mae'n berthnasol
- Faint ydyw
- Sut mae'n cael ei dalu
- Pwy mae'n elwa a sut y caiff ei ddefnyddio
- Sut y bydd yn effeithio ar gymunedau lleol

Unwaith y bydd gan ymatebwyr gwell dealltwriaeth o'r ardoll, maent yn llawer mwy agored i dalu hwn.

“Yn Menorca fe dalais dreth twristiaeth. Cefais fargen dda ar y gwyliau ac yna fe wnes i ystyried hynny fel rhan o'r pris. Y dyddiau hyn mae yna gymaint o ychwanegolion fesul diwrnod ac mae'r cyfan yn adio i fyny. Gyda hyn byddwn yn mynd trwy'r broses felly yn amlwg mae'n rhywbeth negyddol gan ei fod yn fwy costus, ac wrth gwrs mae'n adwaith negyddol. Pan fyddwch chi'n mynd dramor rydych chi'n sylweddoli bod yna fantais a mwy. Yn y wlad hon mae'n fwy didrafferth, rydych chi'n mynd â'ch car – cost diesel hefyd. Mae'n rhywbeth ychwanegol. (preswlydd y DU nad yw'n byw yng Nghymru).

“A yw'n mynd i helpu i lanhau a chynnal yr ardal? A fydd yn lleihau cost fy llety ac yna'n ychwanegu treth ar ben hynny – ni allaf ddychmygu y bydd hynny'n digwydd” (preswlydd o Gymru)

Golwg ar lefelau prisiau

O ran lefel yr ardoll ymwelwyr, roedd y rhai a oedd wedi'i brofi'n flaenorol yn llai pryderus y byddai'n rhywbeth a fyddai'n ychwanegu cost sylweddol at bris y gwyliau.

Roedd ffafriaeth pe bai'r ardoll yn gymesur â chost y llety yn hytrach na ffi sefydlog, gan y byddai hynny'n helpu iddo deimlo'n decach o ran trethu'r rhai mwyaf cyfoethog.

Gan fod Cymru'n cael ei gweld yn gyffredinol fel cyrchfan rhatach na Chernyw neu'r Cotswolds, ystyriwyd yn gyffredinol bod cost y gwyliau gan gynnwys yr ardoll yn llai na mynd i'r rhanbarthau eraill hynny ac felly ni fyddai'n digalonni'r rhan fwyaf o bobl cyn belled mai'r swm cyffredinol oedd yr opsiwn rhataf o hyd.

Er bod amryw o awgrymiadau, y symiau cyffredinol a awgrymwyd oedd 5-10% o gost y llety, neu swm na fyddai'n fwy na £100 am yr wythnos.

Oherwydd yr argyfwng costau byw, nodwyd y dylai'r ardoll fod yn fach iawn (os o gwbl) os yw am gael ei chyflwyno cyn i'r argyfwng ddod i ben.

“Pe bawn i'n mynd i aros am un noson, a bod y dreth yr un peth i rywun sy'n aros 2 wythnos, dydw i ddim yn meddwl y byddai hynny'n deg. Byddwn yn meddwl y dylai fod yn ganran” (preswilydd y DU nad yw'n byw yng Nghymru)

“Rwy'n meddwl bod cyfradd safonol o £5 y person, y noson yn rhesymol, neu 10% o'r tâl ystafell. Unrhyw beth mwy na hynny a byddai'n fy atal rhag archebu” (preswilydd y DU nad yw'n byw yng Nghymru)

“Os yw'n swm bach yna byddech chi'n ei ymgorffori beth bynnag - mae popeth yn mynd i fyny. Os yw ychydig yn fwy yna rydych chi'n meddwl ddwywaith ... byddwn i'n dychmygu ei fod fesul diwrnod. O dan £100 mae'n debyg ei fod yn iawn. Bydd angen gwneud penderfyniadau ynghylch a ddylid mynd yno os yw'n mynd dros £100. Rwy'n meddwl £7-8 y dydd – yn fras iawn” (preswilydd y DU ad yw'n byw yng Nghymru)

“Mae'n dibynnu llawer ar faint fyddai ond ni allaf ddychmygu y byddai'n fy atal rhag mynd yn ormodol. Rwy'n meddwl bod tua 5% yn rhesymol. Mae pobl yn mynd i ffwrdd mewn carafanau ac ati oherwydd eu bod eisiau gwyliau rhad a hwyliog - gallai unrhyw beth mwy na 5% rwystro pobl” (preswilydd o Gymru)

“Rwy'n deall ei bod hi'n gyfnod anodd, ond byddai angen i chi ystyried yn ofalus yr union swm yr ydych yn ei gynnig oherwydd mae pobl eisoes dan bwysau mawr ac ni fyddent am iddo rwystro twristiaeth wrth symud ymlaen” (preswilydd o Gymru)


Effaith ehangach yr ardoll




Effaith gyffredinol canfyddedig yr ardoll ymwelwyr

- Er gwaethaf positifrwydd cyffredinol tuag at y cysyniad, teimlai hanner preswylwyr y DU y byddai'r ardoll yn gwneud gwyliau byr neu wyliau yn y DU yn rhy ddrud – gan godi i 55% o'r rhai sy'n debygol o gymryd gwyliau yng Nghymru. Cytunodd tua 3 o bob 5 y byddai'n annog pobl i beidio ag ymweld. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y safbwyntiau hyn yn 'haniaethol' a phan ofynnir iddynt yn uniongyrchol am eu hymddygiad eu hunain, mae llai o effaith (gweler y dudalen nesaf).

Ffigur 16. Y rhai sy'n cytuno y byddai ardoll yn gwneud gwyliau byr neu wyliau yn y DU yn rhy ddrud, Canran, Yr holl ymatebwyr



Ffigur 17. Y rhai sy'n cytuno y gallai ardoll annog pobl i beidio ag ymweld, Canran, Yr holl ymatebwyr




A9. Gan feddwl yn fwy cyffredinol, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol ynghylch cyflwyno ardoll ymwelwyr yn <y DU> <Cymru>? Sylfaen: Holl breswylwyr y DU (n=2,558) Preswylwyr o Gymru (n=1,005) 'Llawer o dwristiaeth yn yr ardal (n= 743) 'Llawer o dwristiaeth yn yr ardal ac yn byw yng Nghymru (n=311) 'Tebygol iawn o fynd i Gymru ar wyliau (n=618)

Newid ymddygiad os cyflwynir ardoll

- Er bod cytundeb y byddai'r ardoll ymwelwyr yn golygu bod gwyliau byr neu wyliau yn y DU yn waharddol (gweler y dudalen flaenorol), pan ofynnwyd iddynt yn uniongyrchol sut y byddai ardoll ymwelwyr yn effeithio ar eu tripiâu, dim ond 1 o bob 5 o bobl sy'n cymryd tripiâu yng Nghymru na fyddai'n cymryd eu tripiâu yng Nghymru o gwbl (byddai 12% yn mynd i rywle arall, byddai 5% yn mynd ar drip undydd yn lle hynny a 4% ddim yn mynd ar unrhyw drip). Byddai 1 o bob 5 (21%) arall yn 'torri'n ôl' ar wariant tripiâu ond yn dal i gymryd gwyliau i Gymru.

Ffigur 18. Ymateb i gyflwyno ardoll ymwelwyr yng Nghymru, Ymhlith y rhai sy'n debygol iawn o fynd i Gymru ar wyliau, Canran



Newid ymddygiad os cyflwynir ardoll

- ‘Ymhlith y rhai sy’n cynllunio gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru, mae’r tebygolrwydd o ‘dorri’n ôl’ pe byddai ardoll ymwelwyr yn cael ei chyflwyno yn cynyddu fesul segment ariannol. O’r rhai sy’n well eu byd na chyn yr argyfwng (tua 1 o bob 13 o’r boblogaeth), dim ond 18% fyddai’n ‘torri’n ôl’, ond mae hyn yn codi i 45% ymhlith y rhai sydd heb eu heffeithio, 44% o’r rheini’n ofalus iawn a 57% o’r rheini ‘wedi’u taro'n galed’.

Ffigur 19. Ymateb i gyflwyno ardoll ymwelwyr yng Nghymru wedi’i rannu yn ôl statws ariannol presennol mewn perthynas ag argyfwng costau byw, Ymhlith y rhai sy’n debygol iawn o fynd i Gymru ar wyliau, Canran

	Gwell eu byd na chyn yr argyfwng	Heb fy effeithio ac yn hyderus na fyddaf	Rwy'n bod yn ofalus iawn	Rydw i wedi cael fy nharo'n galed
Ni fyddai'n gwneud unrhyw wahaniaeth - byddwn i'n syml yn talu'r gost ychwanegol	78%	51%	48%	33%
Byddwn yn dal i gymryd gwyliau i'r gyrchfan hon ond yn 'torri'n ôl' ar wariant triapiau	17%	20%	26%	14%
Byddwn yn mynd i rywle arall ar wyliau	<1%	12%	10%	27%
Ni fyddwn yn cymryd taith o gwbl	<1%	12%	4%	7%
Byddwn yn mynd i'r gyrchfan hon am drip diwrnod yn lle gwyliau	0%	1%	4%	10%
Ddim yn gwybod/ansicr	4%	4%	9%	10%
Net: Torri'n ôl, mynd i rywle arall, peidio â mynd ar y trip o gwbl*	18%	45%	44%	57%


TS7: Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau sut y byddech chi'n ymateb i gyflwyno ardoll ymwelwyr yng Nghymru rydych chi'n ei ystyried ar gyfer gwyliau byr neu wyliau? Sylfaen: Yr holl ymatebwyr sy'n debygol iawn o fynd i Gymru ar wyliau Yn well eu byd na chyn yr argyfwng (n=57); Heb fy effeithio ac yn hyderus na fyddaf (n=112); Rwy'n bod yn ofalus iawn (n=308); Rydw i wedi cael fy nharo'n galed (n=141)

*Gall cyfansymiau net grynhoi mwy na rhifau cyfan oherwydd talgrynnu pwyntiau degol

Sut mae ymwelwyr yn rhagweld 'torri'n ôl' ar wariant tripiâu

- Y brif ffordd y mae preswylwyr y DU sy'n debygol iawn o fynd i Gymru am wyliau neu wyliau byr yn edrych i 'dorri'n ôl' yw trwy chwilio am fwy o bethau am ddim i'w gwneud, gydag ychydig llai na hanner yn dewis hyn.
- Mae opsiynau poblogaidd eraill yn cynnwys gwneud llai o weithgareddau (40%), dewis llety rhatach (39%) a gwario llai ar fwyta allan (38%).
- Y meysydd lle maent yn llai parod i gyfaddawdu yw hyd eu trip a pha un a ydynt yn aros yn annibynnol neu gyda ffrindiau a pherthnasau.

Ffigur 20. Sut i ragweld 'torri'n ôl' ar wariant tripiâu, Ymhlith y rhai sy'n debygol iawn o fynd i Gymru ar wyliau, Canran



Sut mae ymwelwyr yn rhagweld 'torri'n ôl' ar wariant tripiâu

- Mae'r ffyrdd y byddai ymgymerydd tripiâu yn torri'n ôl yn amrywio yn ôl segment ariannol. Yn benodol, mae'n nodedig, er bod y segment 'Rwy'n bod yn ofalus iawn' yr un mor debygol o 'dorri'n ôl' â'r segment 'heb ei effeithio ac yn hyderus na fyddaf yn cael fy effeithio', mae 'Rwy'n bod yn ofalus iawn' yn debygol o dorri'n ôl mewn mwy o feysydd. Ynghyd â 'Rwyf wedi cael fy nharo'n galed', maent yn arbennig o fwy tebygol o dorri'n ôl drwy 'wario llai ar fwyta allan', 'chwilio am fwy o bethau am ddim i'w gwneud', 'dewis llety rhatach' a 'torri'n ôl ar brynu anrhegion/siopa yn y gyrchfan'.

Ffigur 21. Sut y rhagwelir 'torri'n ôl' ar wariant tripiâu wedi'i rannu yn ôl statws ariannol presennol mewn perthynas ag argyfwng costau byw, Ymhlith y rhai sy'n debygol iawn o fynd ar wyliau domestig, Canran

	Gwell eu byd na chyn yr argyfwng*	Heb fy effeithio ac yn hyderus na fyddaf	Rwy'n bod yn ofalus iawn	Rydw i wedi cael fy nharo'n galed
Gwario llai ar fwyta allan	24%	26%	54%	63%
Chwilio am fwy o 'bethau am ddim' i'w gwneud	1%	17%	51%	42%
Trwy ddewis llety rhatach	19%	18%	40%	39%
Torri'n ôl ar brynu anrhegion / siopa yn y gyrchfan	12%	17%	37%	34%
Gwneud llai o weithgareddau	1%	27%	28%	33%
Ymweld â llai o atyniadau ymwelwyr	27%	18%	27%	34%
Teithio llai yn y gyrchfan	8%	17%	20%	21%
Cymryd trip byrrach	25%	17%	16%	25%
Aros gyda ffrindiau neu berthnasau	13%	19%	13%	17%

* TS8. A sut fydddech chi'n rhagweld 'torri'n ôl' ar wariant tripiâu? Sylfaen: Yr holl ymatebwyr sy'n debygol iawn o fynd ar wyliau domestig yn yr ychydig flynyddoedd nesaf. Gwell eu byd na chyn yr argyfwng (n=57); Heb fy effeithio ac yn hyderus na fyddaf (n=112); Rwy'n bod yn ofalus iawn (n=308); Rwyf wedi cael fy nharo'n galed (n=141) Sylwer: Defnyddir sampl ehangach yma i gynyddu maint y sylfaen.


Sut mae arian yn cael
ei wario



Agweddau at sut mae arian yn cael ei wario

- Yn yr ardaloedd gyda'r lefelau uchaf o dwristiaeth yng Nghymru, teimlai dros ddwy ran o dair (68%) o'r ymatebwyr ei bod yn 'bwysig iawn' gwybod ble mae'r arian o'r ardoll yn cael ei wario.
- Mae hyn hefyd yn uchel ymhlith y rhai sy'n debygol o fynd ar wyliau i Gymru, gyda dros hanner (55%) yn dweud ei bod yn 'bwysig iawn' gwybod.

Ffigur 22. Pwysigrwydd cael gwybod ble bydd yr arian a godir o'r ardoll ymwelwyr yn cael ei wario, Canran, Yr holl ymatebwyr



TS10: Pa mor bwysig, os o gwbl, yw eich bod yn cael gwybod ble byddai'r arian a godir o'r ardoll ymwelwyr yn cael ei wario?
 Sylfaen: Holl breswylwyr y DU (n=2,558) Preswylwyr o Gymru (n=1,005) 'Llawer o dwristiaeth yn yr ardal (n= 743) 'Llawer o dwristiaeth yn yr ardal ac yn byw yng Nghymru (n=311) 'Tebygol iawn o fynd i Gymru ar wyliau (n=618)

Agweddau at sut mae arian yn cael ei wario

Wrth geisio deall pam fod yr ardoll yn angenrheidiol ac a fyddent yn derbyn ei thalu, dangosodd ymatebwyr fod angen clir am dryloywder ynghylch ble y byddai'r arian yn cael ei ddefnyddio.

Roedd y rhan fwyaf eisiau i'r arian gael ei wario'n lleol, ar yr ardal/dref dwristiaeth benodol honno.

Mae angen atebolrwydd a thystiolaeth o'r arian yn cael ei wario mewn cymunedau mewn ffyrdd diriaethol, gan fod diffyg ymddiriedaeth yn y llywodraeth yn arwain at bryderon na fyddai'r arian yn mynd lle mae'n bwriadwyd.

I lawer, dadl glir yn erbyn yr ardoll oedd eu bod yn talu treth eisoes ac felly roeddent yn cwestiynu pam na ellid defnyddio'r arian hwnnw yn lle hynny.

“Cynhaliodd Birmingham Gemau'r Gymanwlad yn gynharach eleni a byddai wedi bod yn dda cael unrhyw arian ychwanegol y gallai'r cyngor fod wedi'i wneud i helpu i'w gadw'n lân a dod â'r twristiaid i mewn” (un o breswylwyr y DU nad yw'n byw yng Nghymru)

“Byddwn yn meddwl y dylid ei ddefnyddio ar gyfer meysydd parcio gwell, rheoli traffig, cadw'r dref yn lân” (preswilydd y DU nad yw'n byw yng Nghymru)


“Un peth arall byddwn i'n ei awgrymu fyddai bod yn dryloyw – ardoll newydd yw hon a'r cyfiawnhad dros hyn yw, a dyma beth rydyn ni'n edrych i'w ddefnyddio ar ei gyfer. Os yw'n rhywbeth rwy'n hapus ag ef yna byddwn yn hapus i wneud hyn.” (preswilydd y DU nad yw'n byw yng Nghymru)

“Mae'n debyg y bydd yn mynd i mewn i boced Mr Drakeford. A fyddai'n cael ei ddefnyddio yn y manau cywir a'r ffyrdd cywir? Mae'n ymddangos eu bod yn cael arian nad yw'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y pethau iawn, nad yw o unrhyw ddefnydd iddyn nhw.” (Preswilydd o Gymru)

Meysydd i ganolbwyntio cyllid ardoll ymwelwyr arnynt

- O ran ble yr hoffai'r rhai sy'n debygol iawn o fynd i Gymru ar wyliau gael gwario'r arian ardoll ymwelwyr, byddai'r gyfran fwyaf (21%) yn hoffi i'r ardoll ymwelwyr gael ei wario ar eu hardal eu hunain ar warchod yr amgylchedd lleol.


Ffigur 23. Y meysydd a ffefrir ar gyfer gwario'r ardoll ymwelwyr, Ymhlith y rhai sy'n debygol iawn o fynd i Gymru ar wyliau, Canran



Meysydd i ganolbwyntio cyllid ardoll ymwelwyr arnynt ymhlith preswylwyr o Gymru

- Pan ofynnwyd i bobl leol beth hoffent weld yr ardoll dwristiaeth yn cael ei wario arno, ‘gwasanaethau a seilwaith lleol’, a ffafriwyd.

Ffigur 24. Ardaloedd yr hoffid i'r arian a godir o ardoll ymwelwyr gael eu gwario arnynt fwyaf Ymysg y rhai sydd â llawer o dwristiaeth yn yr ardal ac yn byw yng Nghymru, Canran



TS11c2: Yn eich ardal leol - Ar ba rai, os o gwbl, o'r meysydd isod yr hoffech i'r arian a godir o'r ardoll ymwelwyr gael ei wario?
Sylfaen: Llawer o dwristiaeth yn yr ardal ac yn byw yng Nghymru (n=311).

Syniadau pellach ar
gyflwyno'r ardoll
ymwelwyr



Sicrhau cyflwyniad llyfn

- Cafwyd sawl awgrym a fyddai'n helpu gyda llwyddiant yr ardoll.
- Ei dreialu mewn ardaloedd twristiaeth prysurach yn unig, efallai yn ystod yr wythnosau brig. Gobeithir y byddai hyn yn cael llai o effaith negyddol ar ardaloedd lle mae ganddynt lai o dwristiaid ac yn dibynnu mwy ar ymwelwyr.
- Darparu tystiolaeth glir ac atebol o ble y caiff yr arian ei wario a sut y caiff ei ddefnyddio, gyda diweddariadau rheolaidd.
- Ystyried ail-labelu'r ardoll ymwelwyr fel treth amgylcheddol a gwariant uniongyrchol i leihau effaith negyddol neu dwristiaeth ar yr amgylchedd lleol a bywyd gwyllt.
- Ystyried sut y caiff ei becynnu, gan fod rhai wedi awgrymu nad oeddent eisiau gwybod amdano tra bod eraill wedi awgrymu bod angen iddo ddigwydd ar adeg benodol, cyn mynd ar wyliau (fel nad oedd taliad beichus yr oeddent wedi anghofio amdano angen ei wneud ar ddiwedd eu harhosiad).
- Ystyried cydamseru lansiad yr ardoll i fod ar yr un pryd â chyrrff rhanbarthol eraill yn y DU, er mwyn lleihau cysylltiadau cyhoeddus negyddol ar gyfer un rhanbarth penodol yn unig.
- Amseru'r ardoll i lansio dim ond pan fydd economi'r DU wedi gwella o'r argyfwng costau byw.

“Cyn belled â'i fod ond yn yr ardaloedd twristiaeth prysurach yna byddai hynny'n iawn, ond ni fyddai'n rhesymol i'w gyflwyno yn rhywle tawelach” (preswlydd y DU nad yw'n byw yng Nghymru)

“Peidiwch â'i wneud yn rhywbeth mawr! Mae gen i gyllideb ar gyfer ystafell - os nad ydw i'n gwybod fy mod i'n ei dalu ac mae'n gweithio o fewn fy nghyllideb, yna mae hynny'n iawn. Rhowch ef o fewn pris yr ystafell a'i roi yn y Telerau ac Amodau” (preswlydd y DU nad yw'n byw yng Nghymru)

“Gwnewch o ar yr un pryd â gweddill y wlad. Peidiwch â sefyll allan oherwydd gallai atal pobl rhag dod i Gymru a gallai hynny fod yn niweidiol i fusnesau.” (Preswlydd o Gymru)

“Roedd yn talu treth twristiaeth ym Mallorca (tua 6 ewro y dydd) ac roedden nhw'n ei alw'n dreth amgylcheddol – ces i wyliau gwych felly wnaeth o ddim amharu arnaf o gwbl” (preswlydd o Gymru)

“Mae ychydig yn rhwystredig pan maen nhw'n ei gyflwyno'n ddirybudd. Nid yw'n ddechrau gwych ar wyliau pan fyddwch wedi blino ac yn teithio ... byddai'n amhoblogaidd iawn” (preswlydd y DU nad yw'n byw yng Nghymru)

“Mae cyllid pobl yn mynd i fod yn newid - mae'n synnwyr cyffredin bod y wlad mewn cyflwr eithaf gwael yn barod. Yn fy oed i gallaf ei weld. Mae'n eithaf difrifol. Mae'n mynd i ddod yn ddrud yng Nghymru beth bynnag.” (Preswlydd o Gymru)



Atodiad
Arwyddocâd ystadegol



Arwyddocâd ystadegol

Mae'r tabl isod yn amlinellu dibynadwyedd ystadegol yr ymatebion i'r arolwg. Nid yw'r enghreifftiau a ddefnyddiwyd yn hollgynhwysfawr ond fe'u dewiswyd i ddangos hyder amrywiol mewn ystod o wahanol feintiau sampl.

Sylfaen	Canfyddiad yr arolwg o...		
	5 / 95%	20 / 80%	50 / 50%
Holl breswylwyr y DU (2,558)	+/- 0.8%	+/- 1.6%	+/- 1.9%
Preswylwyr o Gymru (1,005)	+/- 1.3%	+/- 2.5%	+/- 3.1%
Llawer o dwristiaeth yn yr ardal (743)	+/- 1.6%	+/- 2.9%	+/- 3.6%
Llawer o dwristiaeth yn yr ardal ac yn byw yng Nghymru (311)	+/- 2.4%	+/- 4.4%	+/- 5.6%